Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl Cyngor Sir Ynys Môn. Rhif trwydded 100023412.2010
Crown copyright. All rights reserved Isle of Anglesey County Council. Licence No. 100023412.2010

Allwedd y map / Map key

A Coed Cyrnol Wood
B Coed Marquis Wood
C Coed Cerrig Gorsedd Stones Wood

Llwybr Troed - Footpath
Taith Gerdded Coetir - Woodland Walk

Disgrifiad o'r daith gerdded:

Mae'r daith hon yn eich arwain drwy dair prif goedwig Porthaethwy, sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan Gyngor Tref Porthaethwy. Mae'n mynd i ganol y dref, yna ar hyd glannau'r Fenai ac o dan y bont. Mae llwybrau troed yn mynd o amgylch Ynys Tysilio cyn eich arwain yn ôl at eich car. Nid oes palmentydd ar y ffordd ger y Fenai felly mae angen cymryd gofal. Dylid cymryd gofal hefyd wrth groesi'r priffyrdd.

Sut i gyrraedd yno:

Mae'r maes parcio P yng Nghoed Cyrnol, ger y tŷ bwyta Tseiniaidd, Jade Village sydd rhwng cylchfan y bont a chylchfan yr orsaf betrol ar briffordd yr A5. Rhaid talu am barcio yno. Mae pob bws yn galw yng ngorsaf fysiau Porthaethwy, yn Ffordd y Ffair B, a gallwch ddechrau eich taith gerdded o bwynt 3.

1. Cerddwch o'r maes parcio drwy'r fynedfa gan gymryd gofal wrth groesi priffordd yr A5
2. Ewch drwy'r giât mochyn sydd ar yr ochr chwith i Marquis House a cherdded i lawr y llwybr. **Byddwch yn cerdded drwy Goed Marcwis.**
3. Trowch i'r dde i mewn i Ffordd y Ffair B, a chadw at ochr dde'r tŷ bwyta Tseiniaidd. Trowch i'r chwith ar ôl cyrraedd y stryd fawr.
4. Cerddwch tuag at ganol y dref, a throi i'r dde i groesi'r ffordd at Swyddfa'r Post.
5. Cerddwch heibio Swyddfa'r Post ac i lawr Stryd y Paced.
6. Cerddwch ymlaen ar hyd Stryd y Paced, gan gadw i'r chwith a cherdded ar hyd glannau'r Fenai ac o dan y bont ar hyd Lôn Cei Bont.
7. Ar ôl y bont, trowch i'r chwith wrth yr arwydd 'Llwybr yr Arfordir' a **Byddwch yn cerdded drwy Goed Cerrig Gorsedd**
8. Pan fydd y ffordd yn troelli i'r dde, dilynwch y llwybr troed i'r chwith i lawr at y Fenai a Phromenâd y Belgiaid. **Bydd Coed Cyrnol ar yr ochr dde a gallwch fynd yno i chwilota.**
9. Wrth y sarn gallwch gerdded o amgylch Ynys Tysilio. Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr yn ôl i fyny at y maes parcio drwy Goed Cyrnol.

Follow the Countryside Code in the woodlands of Menai Bridge "Respect, Protect, Enjoy."

Be Safe; plan ahead and follow any signs
Leave gates and property as you find them
Protect plants and animals, and take your litter home
Keep dogs under close control
Consider other people

Ariennir y gwaith hwn yn rhannol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013. Ariennir y Cynllun trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

This work is partly funded by Forestry Commission Wales through the Rural Development Plan for Wales 2007 - 2013. The Plan is funded through the Welsh Assembly Government and the European Union.

Cyngor Tref Porthaethwy

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi helpu: Disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol y Borth www.borth.anglesey.sch.uk, Anne Benwell - Hanesydd, Jo Quinney - Q Marketing & PR Ltd, Cadwch Gymru'n Daclus, www.L29creative.co.uk, Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy / Canolfan Thomas Telford, Clwb Rygbi Porthaethwy Neuadd gymunedol Scouts a Guides Porthaethwy, Menter Môn, Eglwys y Santes Fair a'r Parch. Angela Williams, Waitrose.

Menai Bridge Town Council

Would like to thank everyone who helped: The pupils of Ysgol y Borth Years 5 & 6 www.borth.anglesey.sch.uk, Anne Benwell - Historian, Jo Quinney - Q Marketing & PR Ltd, Keep Wales Tidy, www.L29creative.co.uk, Menai Bridge Community Heritage Trust / Canolfan - Thomas Telford – Centre, Menai Bridge Rugby Club, Menai Bridge Scout and Guide Community Hall, Menter Môn, St Mary's Church and the Rev Angela Williams, Waitrose.

Walk Description:

This walk takes you through the three main woodlands of Menai Bridge, maintained by Menai Bridge Town Council. It drops into the friendly centre of Menai Bridge and then along by the Menai Straits and under the bridge. Footpaths take you around Church Island and return you to your car. Care needs to be taken as the road by the Straits has no pavement. Extra care needs to be taken crossing the main roads.

Access information:

The Car Park P is at Coed Cyrnol, between the bridge roundabout and the petrol station roundabout on the main A5 road. The car park is next to the Jade Village Chinese restaurant. Parking charges apply. All buses pass through Menai Bridge 'Wood Street' bus station B, you can then begin you walk at point 3.

1. Walk out of the car park entrance and take care crossing the A5 main road.
2. Go through the kissing gate on the left of 'Marquis House'. Walk down the path. **You will walk through 'Coed Marquis Wood'.**
3. Turn right into Wood Street where the buses stop B, keep to the right side of the Chinese restaurant. Go left at the main road.
4. Walk towards the centre of town, turn right to cross the road towards the Post Office.
5. Walk past the Post Office and down Water Street.
6. Continue on Water Street and bear left to walk by the Straits and under the bridge along Lon Cei Bont.
7. After the bridge, turn left at the finger post 'Coastal Path' sign. **You will walk through 'The Gorsedd Stones Wood'.**
8. When the road bears right, take the footpath left down to the Straits and the the Belgian Promenade. **You will walk with 'Coed Cyrnol Wood' on your right, which you can explore.**
9. At the causeway, you can walk around Church Island. Turn right and follow the path back up to the car park through **'Coed Cyrnol Wood'**.

Cadwch at y Côd Cefn Gwlad yng nghoedwigoedd Porthaethwy "Parchwch, Gwarchodwch, Mwynhewch."

Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
Gofalwch eich bod chi'n gwarchod planhigion ac anifeiliaid, ac ewch â'ch sbwriel gartref
Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Mae plant Ysgol y Borth ym Mhorthaethwy yn awgrymu eich bod

Yn cadw at y Cod Cefn Gwlad
Yn cadw eich ci yn ddiogel a than reolaeth
Yn rhwystro'ch ci rhag gadael rhywbeth ar ei ôl
Yn parchu'r coedwigoedd
Yn peidio creu SBWRIEL
Yn codi eich sbwriel ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn ei roi yn y biniau pwrpasol

The children of Ysgol y Borth school in Menai Bridge suggest you,

Follow the countryside code
Keep your dog safe and under your control
Do not let your dog leave something behind
Respect the woods
Do not LITTER
Pick up your rubbish and make sure you put it in the litter bin

Pan fyddwch yn mynd â'ch ci am dro…

Ac mae'n gadael rhywbeth ar ei ôl…

Codwch yr hyn mae'n ei adael ar ei ôl…

…a chael gwared arno

CODWCH Y BAW, PEIDIWCH EI ADAEL!